Myfyrdodau ac awgrymiadau aseswyr:

Llwybr 1

- Ystyriwch sut i wneud y gorau o amser a chyfle'r gyfnewidfa ryngwladol. A yw'r gweithgareddau a gynllunnir ar gyfer symudedd yn debygol o arwain at y newid a'r dysgu rydych chi'n gobeithio eu hennill?
- Pa strwythurau allwch chi eu rhoi ar waith cyn, yn ystod neu ar ôl y symudedd i arwain dysgu, sefydlu ymddiriedaeth, annog cyfathrebu a chefnogi myfyrio? Sut y gall dysgu o bell neu ar-lein ategu'r cyfnewid wyneb yn wyneb?
- Beth ydych chi'n gallu ei wneud, ei weld neu ei brofi'n bersonol a fyddai'n anodd ei amgyffred pe bai ar-lein yn unig?
- Amlinellwch sut y gallai'r newidiadau a'r dysgu gysylltu â'r strategaeth ehangach a/neu genhadaeth eich sefydliad/sector.
- Nodwch cysylltiadau cryf a phenodol lle bo'n bosibl â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer eich sector a sut mae'r prosiect yn cyfrannu at y rhain yn ogystal â phrif nodau rhaglen Taith.
- Peidiwch â chanolbwyntio'n unig ar y rhan am y cyfnewid rhyngwladol cyffrous o'r prosiectau! Mae symudedd yn rhan o gylch prosiect a dylai droelli o gynllunio a pharatoi i fyfyrio, dogfennu a rhannu.
- Rhowch amlinelliad clir o amserlen y gweithgareddau a gynllunnir i wella'r trosolwg o reolaeth y prosiect.
- Ystyriwch pwy sydd gennych o fewn y sefydliad i reoli gweinyddiaeth y prosiect a chynnwys eu gwybodaeth neu'u harbenigedd perthnasol. Os nad oes gennych yr adnoddau hyn yn fewnol, ystyriwch a allech weithio gydag eraill fel rhan o gonsortiwm i gyflawni'r prosiect ar y cyd, neu drafod gyda Chorff Trefnu Sector (os yw'n berthnasol) i weld a yw'n gallu cynnig cymorth.
- Er gall cyfarfodydd ar-lein aml fod yn dda, manteisiwch yn llawn ar yr opsiwn i gwblhau Ymweliadau Paratoadol, yn enwedig gyda phartneriaid rhyngwladol newydd. Byddant wir yn helpu i sicrhau bod symudedd dysgwyr yn mynd yn fwy llyfn a bod problemau'n cael sylw o flaen amser.
- Rhowch enghreifftiau o anghenion cynhwysiant penodol sydd gan eich dysgwyr a'ch staff, ac enghreifftiau penodol o sut y gallai eich prosiect fynd i'r afael â'r anghenion hyn, yn hytrach na dim ond rhoi rhestr o ddarpariaethau cyffredinol ar draws eich sefydliad.
- Amlinellwch sut y gellir rhaeadru'r hyn a ddysgwyd o'r prosiectau symudedd i fwy o staff a dysgwyr na dim ond y rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect, fel rhieni, ledled y sefydliad neu ar draws eich rhwydweithiau.
- Defnyddiwch symudedd mewnol yn strategol a byddwch yn glir ynghylch yr hyn y bydd cyfnewid mewnol yn ei olygu ac ychwanegu at nod cyffredinol y prosiect. Gallai un arbenigwr o bartner tramor uwchsgilio llawer o staff. A chofiwch nad yw symudedd mewnol yn orfodol.
- Ystyriwch sut y gellir defnyddio eich symudedd i ddatblygu partneriaethau rhyngwladol a sut y gall hyn fod o fudd i'ch sefydliad yn y tymor byr/canolig/hir.
- Sicrhewch fod eich atebion yn mynd i'r afael â'r holl feini prawf asesu. Os gallwch chi, gofynnwch i rywun nad yw'n gysylltiedig â'r prosiect ddarllen trwy'r cais a'i wirio yn erbyn y meini prawf asesu, yn ogystal ag adolygu'r cysyniad cyffredinol. Er gall pethau fod yn glir i chi, efallai nad ydyn nhw!